Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

5 Mehefin 2008

Cyllid yn helpu ysgolion i rannu arfer dda ond nid yw'r effaith ar ganlyniadau ar gyfer disgyblion yn hysbys

Mae Estyn yn dweud heddiw bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd yn rhannu eu harbenigedd a'u harfer dda ar ddatblygiadau'r cwricwlwm yn ehangach.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Nod y Gronfa Ysgolion Gwell yw helpu ysgolion i rannu arfer dda a hyrwyddo arloesedd. Defnyddir mwyafrif y cyllid ar gyfer datblygiadau'r cwricwlwm ar hyfforddi a datblygu staff. Fodd bynnag, mae angen gwella arfarniad awdurdodau lleol ac ysgolion o ba mor effeithiol yw'r gweithgareddau hyn wrth ddatblygu'r cwricwlwm a gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr.

"Mae'r grant yn cefnogi ystod eang o flaenoriaethau yn ymwneud â datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol. O ganlyniad i nifer fawr y gwahanol flaenoriaethau, wedi'u cyfuno â graddau cyfyngedig yr arfarniad, nid yw effaith y grant ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hysbys. Mae'r grant yn aml yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â chyllid arall sy'n ei gwneud hyd yn oed yn anos pennu ei effaith."

Nifer fach iawn o awdurdodau lleol sy'n gallu dangos cyswllt clir rhwng gweithgareddau datblygu'r cwricwlwm a ariennir gan y cynllun a gwelliannau mewn canlyniadau ar gyfer dysgwyr. Mae Estyn yn argymell y dylai awdurdodau lleol, ysgolion a Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu system arfarnu drylwyr i bennu'r effaith ar ansawdd addysgu a dysgu.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r cyllid i helpu staff i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd yn y cwricwlwm. Yn sgil arolygiadau Estyn o ysgolion a gynhaliwyd rhwng Medi 2005 ac Awst 2007, canfuwyd bod staff mewn llawer o ysgolion yn dangos gwybodaeth bwnc dda a'u bod yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes. Ond eto, mewn rhai prosiectau'n ymwneud â datblygu'r cwricwlwm, hyd yn oed ar ôl blynyddoedd o raglenni Cronfa Ysgolion Gwell cynaliadwy, nid yw ysgolion ac awdurdodau lleol wedi cyflawni'r camau a fwriedir ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, er gwaethaf buddsoddiad parhaus mewn addysgu ieithoedd tramor modern mewn un clwstwr o ysgolion cynradd, mae nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio'r rhain yng nghyfnod allweddol 4 wedi parhau i ostwng.

Yn ystod 2006-2007, galluogodd y Gronfa Ysgolion Gwell i dros 8,000 o athrawon hyfforddi yn natblygiadau'r cwricwlwm. Fodd bynnag, dim ond un o bob pump o'r athrawon a gafodd eu hyfforddi oedd o ysgolion uwchradd. Mae'r anghydbwysedd hwn yn aml oherwydd bod mentrau hyfforddi awdurdodau lleol yn targedu un athro o bob ysgol yn unig. O ganlyniad, mae cyfran llawer mwy o athrawon ysgolion cynradd ledled Cymru yn cael mynediad i hyfforddiant datblygu'r cwricwlwm trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell nag athrawon ysgolion uwchradd.

Dim ond ychydig o fentrau datblygu'r cwricwlwm sy'n cael eu targedu at ysgolion neu ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt. Mae Estyn yn argymell y dylai awdurdodau lleol dargedu'r cyllid yn fwy effeithiol tuag at feysydd y cwricwlwm, ysgolion a disgyblion y mae angen eu datblygu fwyaf.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.
- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ddatblygu'r cwricwlwm' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Mae'r adroddiad yn edrych ar waith yn ystod 2006-2007 a oedd yn cefnogi arloesedd a mentrau ym meysydd:
    - ieithoedd tramor modern

- addysg gorfforol
- cynlluniau ysgolion iach
- addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- y Cwricwlwm Cymreig; a
- Llwybrau Dysgu 14-19

- Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar waith yn ystod 2007-2008 a gefnogodd arloesedd a mentrau ym meysydd:
  - staff yn ymgyfarwyddo â'r Gorchmynion a'r fframweithiau diwygiedig, a pharatoi cynlluniau gwaith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3;
  - lledaenu arfer dda, a hyfforddiant i gefnogi mwy o bwyslais ar gyfer addysgu ac asesu medrau meddwl a dysgu ar gyfer dysgwyr 3-14 oed;
  - datblygu amgylcheddau dysgu awyr agored (yn benodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen);
  - hyfforddiant a chymorth arbenigol ar gyfer athrawon mewn addysg rhyw a pherthynas; a
  - datblygu dulliau arloesol ar gyfer addysgu gwyddoniaeth.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

  - Arolygiadau o ysgolion ac awdurdodau addysg lleol (AALlau) rhwng Medi 2005 ac Awst 2007;
  - Dadansoddi ceisiadau i'r Gronfa Ysgolion Gwell gan bob awdurdod lleol ar gyfer y blynyddoedd 2006-2007, 2007-2008 a 2008-2009;
  - Dadansoddi dogfennaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ac ysgolion, gan gynnwys rhaglenni hyfforddi ac arfarniadau cwrs, cynlluniau datblygu ysgol a chofnodion o arsylwadau gwersi;
  - Cyfweliadau â:
    - swyddogion sy'n gyfrifol am wella ysgolion, datblygiad staff a rheoli'r Gronfa Ysgolion Gwell mewn chwe awdurdod lleol;
    - penaethiaid a staff eraill sy'n gyfrifol am ddatblygiad staff o sampl gynrychioliadol o bump ysgol uwchradd a phump ysgol gynradd o bob cwr o Gymru; ac
  - Adroddiadau wedi'u cyhoeddi ar y Gronfa Ysgolion Gwell gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, system cyfiawnder ieuenctid, AALlau, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae copïau o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn

cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464